

At: Aelodau Cyngor Ymgynghorol
Sefydlog ar Addysg Grefyddol
(CYSAG)

Dyddiad: Dydd Iau, 10 Chwefror
2014

Deialu 01824 712568
Union:

e-bost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Fe'ch gwahoddir i ddod i gyfarfod o'r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR
ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** am **10.00 am, DYDD GWENER, 14 CHWFROR 2014**
yn **SIAMBR Y CYNGOR, FFORDD LLYS NANT, PRESTATYN LL19 9LG.**

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

**RHAN 1 - ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R
RHAN HON O'R CYFARFOD**

MYFYRDOD TAWEL

1 YMDDIHEURIADAU

2 ETHOL IS-GADEIRYDD NEWYDD - UN O GYNRYCHIOLWYR YR AWDURDOD ADDYSG LLEOL

Enwebu ac ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2013-2015 un o gynrychiol wyr yr
Ardurdod Addysg Lleol.

3 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dylai Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu sy'n rhagfarnu yn unrhyw fusnes a nodwyd l'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

4 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o faterion, ym marn y Cadeirydd, y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2013 (copi wedi ei amgáu) ac i ystyried materion yn codi.

6 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGU (Tudalennau 13 - 16)

I dderbyn adroddiad gan yr Arweinydd systemau ar gyfer Gwe (amgeuir copi) yn rhoi dadansoddiad o Adroddiadau Archwilio diweddar Estyn ar gyfer dwy ysgol a gynhaliwyd ym mis Hydref 2013.

7 CANLYNIADAU ARHOLIADAU 2013 (Tudalennau 17 - 28)

I dderbyn adroddiad gan yr Arweinydd systemau ar gyfer Gwe (copi'n amgaeedig) yn darparu canlyniadau manwl ar gyfer arholiadau TGAU ac Astudiaethau Crefyddol Lefel Uwch ar gyfer y flwyddyn 2011 a 2012 ynghyd â dadansoddiad o'r gwahaniaethau a'r tueddiadau.

8 GREFYDDOL MARC SAFON ADDYSG (GMSC) (Tudalennau 29 - 54)

I dderbyn cyflwyniad gan yr Arweinydd systemau ar gyfer Gwe (copi'n amgaeedig) ynglŷn â'r briodol Marc Ansawdd Addysg Grefyddol ar gyfer Cymru.

9 GREFYDDOL MARC SAFON ADDYSG (GMSA) MEINI PRAWF ASESU
(Tudalennau 55 - 100)

I dderbyn dogfennau gan yr Arweinydd systemau ar gyfer Gwe (copi'n amgaeedig) i godi ymwybyddiaeth o'r meini prawf asesu GMSA i gefnogi'r gwaith o fonitro safonau mewn AG mewn Ysgolion.

10 WASACRE (Tudalennau 101 - 110)

- (a) I dderbyn cofnodion drafft cyfarfod o'r Gymdeithas a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2013 yng Nghaerdydd (amgaeir copi) (Cofnodion gael eu cyfieithu cytuno ar unwaith fel rhai cywir yn y cyfarfod nesaf WASACRE).
- (b) Cytuno bresennol yn y cyfarfod CCYSAGC nesaf ym Merthyr Tudful ac i drafod enwebiadau ar gyfer y Pwyllgor Gweithredol (amgeuir copi).

11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I'w gadarnhau.

RHAN 2 - DIM EITEMAU

AELODAETH

Cynghorwyr yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Bill Tasker	Arwel Roberts
Carys Guy	Joe Welch
Dewi Owens	Ann Davies
Margaret McCarroll	

Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol

Mr. Dominic Oakes	Mrs C Thomas
Y Parch. B H Jones	S Harris
Y Parch. Martin Evans-Jones	Is-Gapten Sian Radford
Mary Ludenbach	

Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon

Mrs C Harmsworth	Mrs Maureen Phillips
------------------	----------------------

Aelodau Cyfetholedig

T. Ap Siôn	Mr G Craigen
------------	--------------

COPIAU AT:

Bob Cynghorydd er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gyhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun , Dydd Gwener, 11 Hydref 2013 am 2.00 pm.

YN BRESENNOL

Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Cynghorwyr Dewi Owens, Joe Welch ac Ann Davies

Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol

Mr Dominic Oakes, Ms Mary Ludenbach a Ms S Harris

Yn Cynrychioli Cymdeithasau Athrawon

Katie Thomas (dirprwy ar ran Ali Ballantyne)

Aelodau Cyfetholedig

Mr G Craigen

HEFYD YN BRESENNOL

Arweinydd systemau ar gyfer GwE (PL) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

PWYNT O WYBODAETH

Roedd ymddiheuriadau am absenoldeb wedi dod i law oddi wrth y Cadeirydd newydd, y Parchedig Martin Evans-Jones a oedd wedi methu dod i'r cyfarfod a aildrefnwyd. Yn ei absenoldeb, ac absenoldeb yr Is-gadeirydd, cymerodd y Cynghorydd Dewi Owens y Gadair ar gyfer y cyfarfod.

MYFYRDOD TAWEL

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig o funudau o fyfyrddod tawel.

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Margaret McCarroll, Bill Tasker ac Arwel Roberts ynghyd ag Ali Ballantyne, y Parchedig Martin Evans-Jones, Cate Harmsworth, y Parchedig Brian H Jones a Tania Ap Siôn

2 PENODI'R IS-GADEIRYDD YN GADEIRYDD

Yn unol â chyfansoddiad CYSAG Sir Ddinbych penodwyd yr Is-Gadeirydd presennol, y Parchedig Martin Evans-Jones yn Gadeirydd ar gyfer 2013-2015.

PENDERFYNWYD penodi'r Parchedig Martin Evans-Jones yn Gadeirydd CYSAG Sir Ddinbych ar gyfer 2013-2015.

3 ETHOL IS-GADEIRYDD NEWYDD – UN O GYNRYCHIOLWYR YR AWDURDOD ADDYSG LLEOL

Yn unol â chyfansoddiad CYSAG Sir Ddinbych gwahoddwyd enwebiadau ar gyfer penodi Is-Gadeirydd ar gyfer 2013 - 2015 oddi wrth Gynrychiolwyr yr AALI. Yn absenoldeb nifer o gynrychiolwyr yr AALI cytunwyd i ohirio penodi tan gyfarfod nesaf y Cyngor Ymgynghorol.

PENDERFYNWYD gohirio penodi Is-Gadeirydd CYSAG Sir Ddinbych ar gyfer 2013-15 tan gyfarfod nesaf y Cyngor Ymgynghorol.

4 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu gan unrhyw un.

5 MATERION BRYG FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryg i'w hystyried.

6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion pwyllgor Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2013 (wedi'u cylchredeg yn flaenorol).

Materion yn codi: -

Tudalen 6, eitem rhif 4 Cofnodion y cyfarfod diwethaf - Mark Ansawdd Addysg Grefyddol - Ar gais yr Arweinydd Systemau ar gyfer aelodau GwE (AS) cytunodd yr aelodau ohirio'r cyflwyniad ar y Marc Ansawdd Addysg Grefyddol tan gyfarfod nesaf y Cyngor Ymgynghorol ym mis Chwefror 2014.

Tudalen 7 - eitem rhif 5 Darpariaeth SMSC yn y Sector Addysg Bellach - Cadarnhaodd yr AS fod llythyr wedi cael ei anfon i Goleg Chweched Dosbarth y Rhyl fel y gofynnwyd gan y Cyngor Ymgynghorol ac roedd yr arwyddion cynnar yn gadarnhaol. Cadarnhaodd y byddai'n parhau i symud y mater ymlaen a cheisio cael aelodaeth gyfetholedig. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhaodd yr AS bod ystafell weddi wedi ei neilltuo ond heb ei defnyddio ac yn tueddu i gael ei defnyddio fel man storio. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid cysylltu'n uniongyrchol â Chyfarwyddwr y Coleg, Celia Jones, ynglŷn â phryderon parhaus am y defnydd o'r ystafell.

Tudalen 9 - eitem rhif 6 Dadansoddiad o Adroddiadau Archwilio - Cadarnhaodd yr AS fod llythrau wedi eu hanfon at yr ysgolion a arolygwyd yn eu llongyfarch ar y nodweddion da a nodwyd.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 10 Mehefin, 2013 fel cofnod cywir.

7 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG 2012/13 (DRAFFT)

Cyflwynodd yr Arweinydd Systemau ar gyfer GwE (AS) Adroddiad Blynyddol drafft CYSAG Sir Ddinbych 2012/13 (a ddsbarthwyd yn flaenorol) i'w cymeradwyo a oedd yn rhoi manylion am weithgareddau CYSAG yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol gan gynnwys cyngor a roddwyd i'r awdurdod addysg lleol ynghyd â materion lleol a chenedlaethol eraill.

Gofynnodd yr AS am gymeradwyaeth yr aelodau i'r adroddiad, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau, fel cofnod cywir i'w ddsbarthu i'r derbynwyr hynny a restrir yn yr adroddiad. Roedd y diwygiadau canlynol wedi cael eu nodi -

- tudalennau 17 a 18 - cyfeiriadau at 'Sir y Fflint' yn cael ei newid i 'Sir Ddinbych'
- tudalen 21 – newid 'Arolygydd/ Ymgynghorydd' i 'Uwch Ymgynghorydd Dysgu'

Roedd yr aelodau'n hapus i dderbyn yr adroddiad fel cofnod cywir o waith CYSAG.

PENDERFYNWYD:-

- (a) *yn amodol ar y diwygiadau uchod bod Adroddiad Blynyddol CYSAG Sir Ddinbych ar gyfer 2012 - 2013 yn cael ei gymeradwyo fel cofnod cywir o waith CYSAG, a*
- (b) *gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol drefnu cyfieithu, argraffu a dosbarthu'r adroddiad i'r holl ysgolion a cholegau yn Sir Ddinbych a derbynwyr eraill fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac fel y nodwyd yn yr adroddiad.*

8 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGIADAU

Cyflwynodd yr Arweinydd Systemau ar gyfer GwE (AS) adroddiad (a ddsbarthwyd yn flaenorol) yn dadansoddi canlyniadau arolygiadau diweddar Estyn o ran darpariaeth Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn tair ysgol rhwng mis Mawrth a mis Mai 2013. Roedd arolygiadau wedi'u gwneud yn Ysgol Gymunedol Bodnant, Prestatyn; Ysgol Esgob Morgan, Llanelwy ac Ysgol Stryd y Rhos CP Rhuthun.

Darparodd yr AS yr aelodau â chrynodeb byr o'r canfyddiadau'n ymwneud â phob ysgol ac roedd yr aelodau'n falch o nodi'r sylwadau cadarnhaol ar draws yr ysgolion heb i unrhyw sylwadau negyddol ddod i law. Roedd Mr Gavin Craigen wedi synnu na chyfeiriwyd at weithio mewn partneriaeth ar draws y tair ysgol gan ei fod yn ystyried hyn i fod yn nodwedd gadarnhaol ac arfer da o fewn yr ysgolion hynny. Cadarnhaodd yr AS nad oedd yn nodwedd y rhoddwyd sylwadau cyson arno.

PENDERFYNWYD:-

- (a) *Y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad.*

(b) *Bod llythyr yn cael ei anfon i'r ysgolion a arolygwyd yn eu hysbysu bod eu Hadroddiad Arolwg wedi cael ei ystyried a'u llongyfarch ar y nodweddion da a nodwyd, a*

(c) *gofyn i'r Awdurdod Lleol ddsbarthu'r llythyrau uchod.*

9 ADRODDIAD ESTYN AR ADDYSG GREFYDDOL MEWN YSGOLION UWCHRADD

Cyflwynodd yr Arweinydd Systemau GwE (AS) adroddiad Estyn ar safonau addysgu a dysgu Addysg Grefyddol o fewn y sector ysgolion uwchradd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013 (dosbarthwyd yn flaenorol). Adroddodd hefyd am fynychu Cynhadledd CCYSAGC Genedlaethol y diwrnod blaenorol lle trafodwyd negeseuon allweddol o'r Adolygiad Thematig Estyn ar gyfer Addysg Grefyddol ynghyd â blaenoriaethau cenedlaethol Llythrennedd a Rhifedd trwy Addysg Grefyddol. Y prif siaradwyr yn y Gynhadledd oedd -

- Mark Champion, Estyn - Adolygiad Thematig Estyn ar gyfer Addysg Grefyddol
- Richard Roberts, CfBT - Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Roedd sampl o 20 o ysgolion uwchradd wedi eu harolygu yng Nghymru fel rhan o'r astudiaeth (roedd Ofsted wedi ymweld â 70 o ysgolion yn Lloegr) ac roedd yr adroddiad yn cynnwys safonau yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, mae cyrhaeddiad mewn astudiaethau crefyddol TGAU a chyfranogiad ac ymgysylltu mewn dysgu. Roedd hefyd yn cynnwys ffactorau sy'n effeithio ar safonau gan gynnwys cynllunio'r cwricwlwm, addysgu, asesu, arweinyddiaeth, gwella ansawdd a dylanwadau allanol. Tynnwyd sylw'r Aelodau at y prif ganfyddiadau canlynol -

- Roedd canlyniadau yng Nghymru wedi bod yn gadarnhaol iawn gyda mwy o ddisgyblion yn ennill cymhwyster mewn AG nag mewn unrhyw bwnc di-graidd eraill
- Mae'r niferoedd sy'n cymryd y cwrs TGAU llawn a byr mewn Astudiaethau Crefyddol wedi codi dros y pum mlynedd diwethaf, gydag ychydig dros chwarter y disgyblion wedi cofrestru ar y cwrs llawn ac ychydig dros hanner y disgyblion wedi cofrestru ar y cwrs byr
- Mae cyrhaeddiad wedi codi'n gyson yn y cwrs llawn ac yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pynciau eraill ac er bod cyrhaeddiad wedi disgyn yn y cwrs byr mae perfformiad wedi aros yn gyson well na'r DU
- Roedd y bwloch mewn cyrhaeddiad rhwng bechgyn a merched yn ehangach yng Nghymru ar gyfer y ddau gwrs nag ar draws y DU
- roedd y safonau'n dda yn y mwyafrif o ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 3, ond roedd ychydig o ysgolion lle'r oedd y safonau'n anfodddhaol ac roedd argymhelliad i sicrhau bod tasgau yn ddigon heriol i alluogi disgyblion mwy galluog i gyrraedd lefelau uwch - ers cyhoeddi'r adroddiad darparwyd hyfforddiant ar gyfer athrawon Sir Ddinbych er mwyn gwella cywirdeb asesiadau athrawon o lefelau disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3
- Defnyddiwyd athrawon anarbenigol i addysgu AG a'r cwrs byr ond anaml y cânt yn eu defnyddio i addysgu'r cwrs llawn - nid oedd athrawon anarbenigol wedi cael effaith negyddol ar safonau yn y rhan fwyaf o ysgolion

- Roedd hunan-arfarnu yn dda neu'n well mewn dim ond lleiafrif o adrannau AG ac roedd yn argymhelliad i gryfhau hunan-arfarnu a defnyddio data i nodi ble a beth i'w wella
- Nodwyd bod diffyg cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a rhwydweithiau dysgu a oedd yn golygu nad oedd digon o rannu arfer da ac nad aethpwyd i'r afael â heriau yn effeithiol.

Ymhelaethodd yr AS hefyd ar yr argymhellion sy'n deillio o'r adroddiad. O ran argymhelliad Llywodraeth Cymru (LIC) R7 y dylid trin data cyrhaeddiad ar gyfer Addysg Grefyddol ac Astudiaethau Crefyddol yn yr un modd â phynciau di-graidd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb na fyddai'n briodol i fwrw ymlaen â'r argymhelliad yng ngoleuni'r adolygiad cwricwlwm parhaus ar gyfer Cyfnod Allweddol 3. Yr argymhelliad olaf A8 oedd bod LIC yn gweithio gydag awdurdodau lleol a CYSAG i wella'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a rhwydweithiau cefnogi dysgu ar gyfer athrawon addysg grefyddol. Roedd rhwydweithiau wedi diflannu yn Sir Ddinbych ar ôl cael gwared ar y swyddi ymgynghorydd dysgu ac er mwyn symud ymlaen yr argymhelliad hwnnw, cynigiwyd y dylid anfon llythyr at Bennaeth Addysg Sir Ddinbych, Karen Evans, yn holi am gyfleoedd a chefnogaeth i athrawon AG a chynnig cefnogaeth CYSAG mewn perthynas â hynny. Roedd CCYSAGC hefyd yn ganolog ar ddarparu cefnogaeth ar gyfer athrawon o dan yr argymhelliad hwnnw.

Trafododd yr Aelodau yr argymhellion ar gyfer ysgolion a nodwyd yn yr adroddiad a sut orau i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad rhwng bechgyn a merched. Nodwyd bod hwn hefyd yn broblem mewn meysydd pwnc eraill a chyfeiriodd y Cadeirydd at strategaethau lleol a oedd wedi cael eu cyflwyno i fynd i'r afael ag anghysondebau rhwng y rhywiau yn Sir Ddinbych gyda chanlyniadau cadarnhaol. Dywedodd yr AS fod CCYSAGC wedi ystyried ei gyfrifoldebau o ran cefnogi athrawon ac yn awyddus i fynd i'r afael â'r mater drwy ddarparu hyfforddiant. Cytunwyd i gysylltu â'r Pennaeth Addysg, Karen Evans i holi ynghylch unrhyw strategaethau lleol y gellid eu gweithredu gyda golwg ar godi cyrhaeddiad bechgyn o ran AG.

Ystyriodd CYSAG hefyd y canfyddiad nad yw athrawon anarbenigol yn cael effaith negyddol ar safonau yn y rhan fwyaf o ysgolion a'r angen i godi ymwybyddiaeth o'r mater hwn. Cydnabuwyd nad oedd sgiliau addysgu yn newid ar draws y pynciau a gallai gwahanol bynciau gael eu dysgu yn dda gan athrawon anarbenigol. Adroddodd yr AS ar ei brofiad ei hun o ddysgu AG a phwysigrwydd cynllun gwaith cadarn a chynlluniau gwersi er mwyn rhannu arfer da a chodi safonau. Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon hefyd nad oedd gan rai athrawon yr wybodaeth a'r brwdfrydedd i addysgu pynciau anarbenigol a bod angen am athrawon arbenigol. Amlygwyd hefyd bod cyrhaeddiad yn y cwrs TGAU llawn wedi codi dros y pum mlynedd diwethaf, lle defnyddiwyd athrawon arbenigol ond bod cyrhaeddiad yn y cwrs TGAU byr wedi gostwng lle defnyddiwyd athrawon anarbenigol. Eglurwyd y rheswm am y cwmp mewn cyrhaeddiad yn y cwrs byr gan rai ysgolion sy'n defnyddio'r cwrs byr i sicrhau bod y mwyafrif o'r disgyblion yn derbyn cymhwyster mewn AG a ffrydio'r ymgeiswyr mwy galluog i'r cwrs llawn. Cododd hyn y cwestiwn ynghylch a fyddai'r disgyblion hynny sy'n dod i'r cwrs byr wedi cyflawni canlyniad gwell pe baent wedi cael eu haddysgu gan athrawon arbenigol. Nododd yr Aelodau hefyd fod y cwrs TGAU byr yn werth hanner TGAU llawn a bod ysgolion yn tueddu i ddewis y cwrs hwnnw gan y gellid ei wneud yn yr amser sydd wedi'i

neilltuo i wneud y gofyniad cyfreithiol o ran AG – ac felly daeth yr argymhelliad (A2) i ystyried rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion i ennill cymhwyster priodol yng Nghyfnod Allweddol 4.

Wrth drafod safonau cyflawniad amlygodd yr aelodau na ellid bob amser mesur manteision a gwerth AG mewn cyrhaeddiad academaidd. Awgrymwyd hefyd bod arfer blaenorol CYSAG o dderbyn cyflwyniadau ar y ddarpariaeth AG ac addoli ar y cyd mewn ysgolion yn cael ei adfywio.

Ar ddiwedd y drafodaeth, amlygodd Mr Gavin Craigen ddwy agwedd ar gyflwyniad Mark Campion yn y Gynhadledd CCYSAGC Genedlaethol -

- y ffaith bod bron pob un o'r disgyblion yn parchu barn a chredoau pobl eraill a gwerthfawrogi'r hyn maent yn ei ddysgu yn AG a oedd yn neges gadarnhaol y dylid ei hyrwyddo a'i rhannu ag eraill, a
- roedd safonau addysgu mewn ysgolion yn ardderchog gydag ychydig iawn o wersi anfoddfaol ac roedd addysgu mewn AG yn sylweddol well nag mewn pynciau eraill.

Roedd Mr Craigen yn cefnogi'r cynnig i ysgrifennu at y Pennaeth Addysg ynghylch rhwydweithiau dysgu ond yn teimlo y dylai'r mater gael ei archwilio yn y gymuned ehangach a'r trefniadau consortia sydd yn eu lle ar hyn o bryd. Teimlai hefyd y dylai'r adroddiad gael ei ddwyn i sylw ysgolion i ystyried yr argymhellion. Wedi trafodaeth bellach -

PENDERFYNWYD:-

- (a) *derbyn a chofnodi'r adroddiad, a*
- (b) *anfon llythyr ar ran CYSAG at y Pennaeth Addysg Sir Ddinbych, Karen Evans, yn gwneud ymholiadau ynglŷn â'r canlynol -*
- *unrhyw strategaethau lleol y gellid eu gweithredu gyda golwg ar godi cyrhaeddiad bechgyn o ran AG.*
 - *cyfleoedd a chefnogaeth i athrawon AG o ran datblygiad proffesiynol a rhwydweithiau cefnogi dysgu (gan gynnwys trefniadau consortia) a chynnig cefnogaeth CYSAG yn y cyswllt hwnnw, a*
 - *Y dull gorau i ddwyn yr adroddiad i sylw'r ysgolion i ystyried yr argymhellion sy'n berthnasol iddyn nhw.*

10 CCYSAGC

(A) Cofnodion CCYSAGC - 19 Mehefin, 2013

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru (CCYSAGC) a gynhaliwyd ar 19 Mehefin, 2013 yng Nghaernarfon (a ddisbarthwyd yn flaenorol) er gwybodaeth i'r aelodau. Soniodd yr Arweinydd Systemau ar gyfer GwE (AS) ar gyflwyniad a wnaeth yn y cyfarfod ar y Marc Ansawdd AG (REQM) mewn cyddestun Cymreig penodol a oedd wedi cael ei dreialu yn ddiweddar mewn rhai

ysgolion. Mae'r ysgolion hynny wedi rhannu eu profiadau yn CCYSAGC a chadarnhaodd yr AS byddai hefyd yn eu gwahodd i'r cyfarfod CYSAG nesaf pan fydd y REQM ar y rhaglen. Roedd CCYSAGC wedi cytuno i ddarparu cyllid ar gyfer cyfieithu'r dogfennau. Mewn ymateb i gwestiynau, soniodd yr AS am y gwaith parhaus i newid y meini prawf Saesneg ar gyfer y REQM i'r cyd-destun Cymreig. Y gost o wneud cais ar gyfer yr asesiad REQM fyddai £450.00 fesul ysgol ond byddai ysgolion yn cael eu hannog i edrych trwy'r deunyddiau hyd yn oed os nad oeddent yn gwneud cais am y marc ansawdd.

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion CCYSAGC a gynhaliwyd ar 19 Mawrth, 2013 a nodi'r adroddiad llafar gan yr Arweinydd Systemau ar gyfer GwE ar y Marc Ansawdd Addysg Grefyddol.

(B) cyfarfod CCYSAGC - 27 Mawrth, 2014

Dywedodd yr Arweinydd Systemau ar gyfer GwE (AS) y byddai cyfarfod nesaf CYSAG Cymru yn cael ei gynnal ar 27 Mawrth 2014 yng Nghaerffili a gofynnodd am gadarnhad o gynrychiolwyr i fod yn bresennol. Hefyd tynnodd sylw'r aelodau at enwebiadau a dderbyniwyd ar gyfer y Pwyllgor Gwaith (a ddsbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi gwybod bod dau enwebiad ar gyfer un swydd.

Trafododd yr Aelodau bresenoldeb yn y cyfarfod nesaf ac ystyried yr ymgeiswyr ar gyfer y Pwyllgor Gwaith a -

PENDERFYNWYD:-

- (a) *Bod y Cynghorydd Ann Davies a Philip Lord yn mynychu cyfarfod nesaf CCYSAGC ar 27 Mawrth 2014, ac*
- (b) *Bod y Cynghorydd Michael Gray, Caerffili yn derbyn pleidlais CYSAG Sir Ddinbych ar gyfer ei ethol ar Bwyllgor Gwaith CCYSAGC.*

11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych am 10am ar ddydd Gwener 14 Chwefror 2014 yn Siambr y Cyngor, Ffordd Nant Hall, Prestatyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.20 pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG)		
Dyddiad y Cyfarfod:		14 Chwefror 2014
Eitem ar y Rhaglen:	6	Manylion yr Adroddiad
<u>Cefndir yr Adroddiad:</u>		
<p>Mae'n ddyletswydd statudol ar CYSAG i fonitro darpariaeth Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn ysgolion. Mae ganddyn nhw draddodiad hir o dderbyn adroddiadau arolygon Estyn ym mhob cyfarfod.</p>		
<u>Pwrpas yr Adroddiad:</u>		
<p>Rhoi gwybod i aelodau am ganlyniadau Adroddiadau Arolygon diweddar Estyn ar ysgolion.</p>		
<u>Argymhellion:</u>		
<ul style="list-style-type: none">▪ Derbyn yr adroddiad▪ Anfon llythyr i bob ysgol i roi gwybod iddyn nhw bod adroddiad o'u harolwg wedi ei ystyried, i'w llongyfarch am yr elfennau da a nodwyd, ac i'w hatgoffa bod yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol a'r Swyddogion Gwella Ysgolion ar gael i gynorthwyo gydag unrhyw faes sydd angen ei ddatblygu neu unrhyw fater sydd angen mynd i'r afael ag o.▪ Y dylid gofyn i'r AALI ddsbarthu'r llythyrau i'r ysgolion perthnasol.		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu CYSAG Sir Ddinbych

Gwanwyn 2014

(adroddiadau a gyhoeddwyd yn nhymor yr hydref)

Ysgol	Dyddiadau	Arolygwr Adrodd
Ysgol Cefn Meiriadog	Hydref 2013	Mrs Jane Williams
<p><i>Mae Ysgol Cefn Meiriadog ym mhentref Cefn Meiriadog, ger tref Llanelwy, yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Daw'r disgyblion o ystod eang o gefndiroedd ac maent yn byw yn y pentref neu'r ardal wledig gyfagos.</i></p> <p><i>Mae'r ysgol hon ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Ar hyn o bryd mae 75 disgybl yn yr ysgol, gan gynnwys naw plentyn sy'n mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan-amser. Mae niferoedd disgyblion yn debyg i'r niferoedd ar adeg yr arolwg diwethaf. Mae'r ysgol wedi ei threfnu yn bedwar dosbarth oedran cymysg. Does dim un disgybl yn siarad Cymraeg fel ei iaith gyntaf nac yn derbyn cymorth gyda Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig gydag ychydig iawn o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig cymysg.</i></p> <p><i>Mae 18% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydu ysgol am ddim, sy'n is na chyfartaledd yr awdurdod a Chymru gyfan. Nododd yr ysgol bod gan 21% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes gan unrhyw ddisgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.</i></p>		
Ysgol Trefnant	Hydref 2013	Richard Lloyd
<p><i>Mae Ysgol Trefnant, Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir gan yr Eglwys yng Nghymru, yn gwasanaethu pentref Trefnant a'r ardal gyfagos yn Sir Ddinbych. Mae 76 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed yn yr ysgol gan gynnwys 12 disgybl yn y dosbarth meithrin. Mae gan yr ysgol bedwar dosbarth. Mae gan tua 10% o'r disgyblion hawl i brydu ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu'n raddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.</i></p> <p><i>Daw bron yr holl ddisgyblion o gartrefi lle mai Saesneg yw'r brif iaith a does dim disgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Gwyn Prydeinig yw ethnigrwydd y rhan fwyaf o'r disgyblion; mae'r gweddill yn bennaf o ethnigrwydd cymysg. Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n derbyn cymorth gyda Saesneg fel iaith ychwanegol. Nododd yr ysgol bod gan tua 19% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Ar hyn o bryd, nid oes gan unrhyw ddisgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac nid oes unrhyw ddisgybl dan ofal yr awdurdod lleol. Ni fu unrhyw waharddiad disgybl cyfnod penodol yn y 12 mis diwethaf.</i></p>		

SYLWADAU CADARNHAOL

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r Canlyniadau?

Safonau:

- Roedd y perfformiad yng nghanlyniad 6 mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol yn llawer uwch na chyfartaledd y teulu. (Cefn Meiriadog)
- Mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, roedd llwyddiant disgyblion yn gyfartal â chyfartaledd y teulu ac yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. (Ysgol Trefnant)

Lles:

- Mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o'r gymuned leol ac mae'r ysgol yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. (Cefn Meiriadog)
- Maent yn dangos parch, cwrteisi ac ystyriaeth tuag at ei gilydd a tuag at oedolion. (Ysgol Trefnant)

- Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda at weithgareddau yn y gymuned. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad fel unigolion cyflawn a chyfrifol. (Ysgol Trefnant)

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Profiadau dysgu:

- Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am gynladwyedd a hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang. (Cefn Meiriadog)
- Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion statudol. (Ysgol Trefnant)
- Mae ymweliadau addysgol, fel ymweliad ag Eglwys Gadeiriol Llanelwy, ynghyd ag ymwelwyr i'r ysgol, yn ategu'r cwricwlwm ac yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. (Ysgol Trefnant)
- Maent hefyd yn darparu profiadau dysgu o ansawdd da, sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o fywyd mewn gwledydd eraill. (Ysgol Trefnant)

Gofal, cefnogaeth ac arweiniad:

- Mae'r ysgol yn darparu lefel dda o ofal, cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer ei disgyblion. Mae staff yn defnyddio ystod dda o strategaethau a rhaglenni i gefnogi anghenion personol disgyblion, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. (Cefn Meiriadog)
- Mae staff yn darparu profiadau gwerthfawr sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn dda. Mae addoli dyddiol yn canolbwyntio yn llwyddiannus ar godi ymwybyddiaeth o ddatganiad cenhadaeth yr ysgol. Mae cysylltiadau lleol cryf â'r eglwys a'r gymuned ehangach yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth dda o fyw mewn cymuned. (Ysgol Trefnant)

Amgylchedd Dysgu:

- Mae'r ysgol yn gynhwysol, yn cynnig mynediad cyfartal i'r cwricwlwm i bob disgybl ac yn hyrwyddo pwysigrwydd amrywiaeth yn dda. (Cefn Meiriadog)

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth?

Gwaith Partneriaeth:

- Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau gyda sefydliadau cymunedol. Mae'r rhain yn cael effaith dda ar ehangu profiadau dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, mae ymweliadau cyson â'r eglwys leol yn datblygu datblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion yn dda. (Ysgol Trefnant)

Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG)		
Dyddiad y Cyfarfod:		14 Chwefror 2014
Eitem ar y Rhaglen:	7	Manylion yr Adroddiad
<u>Cefndir yr Adroddiad:</u>		
<p>Mae'r adroddiad yn cynnwys canlyniadau manwl arholiadau Addysg Grefyddol TGAU a Lefel Uwch ar gyfer 2011 a 2012, ynghyd â dadansoddiad y gwahaniaethau a'r tueddiadau.</p>		
<u>Pwrpas yr Adroddiad:</u>		
<p>Er mwyn i'r aelodau allu arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'u dyletswydd statudol i fonitro darpariaeth Addysg Grefyddol mewn ysgolion, ac i gael y wybodaeth lawn am ganlyniadau'r flwyddyn honno.</p>		
<u>Argymhellion:</u>		
<ul style="list-style-type: none">• Derbyn yr adroddiad• Ystyried unrhyw gamau pellach y gallai fod yn ofynnol		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 1
Denbighshire Schools – Table 1

CANLYNIADAU TAGAU 2013: PAWB – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
GCSE RESULTS 2013: ALL – RELIGIOUS STUDIES

Ysgolion Schools	Cyfanswm /Totals	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	G	%	U	%	% A* - C	% A* - G
Dinbych Denbigh	15	1	6.7%	1	6.7%	2	13.3%	6	40.0%	4	26.7%	0	0.0%	0	0.0%	1	6.7%	0	0.0%	66.7%	100%
Glan Clwyd	9	2	22.2%	2	22.2%	2	22.2%	2	22.2%	0	0.0%	1	11.1%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	88.9%	100%
Prestatyn	214	12	5.6%	20	9.3%	56	26.2%	62	29.0%	31	14.5%	15	7.0%	13	6.1%	5	2.3%	0	0.0%	70.1%	100%
Dinas Bran	30	4	13.3%	1	3.3%	8	26.7%	8	26.7%	3	10.0%	4	13.3%	2	6.7%	0	0.0%	0	0.0%	70.0%	100%
Brynhyfryd	42	15	35.7%	14	33.3%	7	16.7%	4	9.5%	1	2.4%	1	2.4%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	95.2%	100%
Y Rhyl/Rhyl	28	1	3.6%	11	39.3%	6	21.4%	10	35.7%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	100.0%	100%
Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones	0	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0.0%	0%
Santes Hffraid/ St Brigids	53	17	32.1%	20	37.7%	9	17.0%	5	9.4%	2	3.8%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	96.2%	100.0%
Cyfanswm AALI/ LA Totals	391	52	13.3%	69	17.6%	90	23.0%	97	24.8%	41	10.5%	21	5.4%	15	3.8%	6	1.5%	0	0.0%	78.8%	100.0%
Holl Cymru All Wales	11,414		14%		19%		22%		18%		11%		6%		5%		3%			73%	98%

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 2
Denbighshire Schools – Table 2

CANLYNIADAU TAGAU 2012: PAWB – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
GCSE RESULTS 2012: ALL – RELIGIOUS STUDIES

Tudalen 20

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfanswm Totals</i>	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	G	%	U	%	% A* - C	% A* - G
<i>Dinbych Denbigh</i>	21	0	0.0	3	14.0	6	29.0	6	29.0	2	10.0	2	10.0	1	5.0	1	5.0	0	0.0	72.0	100
Glan Clwyd	5	0	0.0	2	40.0	2	40.0	1	20.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
Prestatyn	240	24	10.0	58	24.0	72	30.0	48	20.0	17	7.0	9	4.0	7	3.0	5	2.0	0	0.0	84.2	100
Dinas Bran	48	4	8.0	8	17.0	9	19.0	13	27.0	8	17.0	3	6.0	3	6.0	0	0.0	0	0.0	70.8	100
Brynhyfryd	34	14	41.0	12	35.0	6	18.0	0	0.0	0	0.0	2	6.0	0	0	0	0.0	0	0.0	94.0	100
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	59	2	3.4	7	11.9	16	27.1	25	42.4	8	13.6	0	0.0	1	1.7	0	0.0	0	0.0	84.7	100
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	54	0	0.0	9	17.0	14	26.0	16	30.0	6	11.0	5	9.0	4	7.0	0	0.0	0	0.0	72.2	100
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	54	26	48.0	12	22.0	13	24.0	2	4.0	0	0.0	1	2.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	98.1	100
<i>Cyfanswm AALL/ LEA Totals</i>	515	70	13.6	111	21.5	138	26.8	111	21.5	41	8.0	22	4.3	16	3.1	6	0.2	0	0.0	83.5	100
<i>Holl Cymru All Wales</i>	10409	1551	14.9	2040	19.6	2238	21.5	1832	17.6	1145	11.0	760	7.3	427	4.1	250	2.4	166	1.6	73.6	98.4

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 3
Denbighshire Schools – Table 3

CANLYDIADAU TGAU 2013 PAWB – ASTUDIAETHAU GREFYDDOL: CWRS BYR
GCSE RESULTS 2013: ALL – RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE

Ysgolion Schools	Cyfanswm /Totals	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	G	%	U	%	% A* - C	% A* - G
Dinbych Denbigh	117	3	2.6%	9	7.7%	15	12.8%	33	28.2%	19	16.2%	17	14.5%	11	9.4%	5	4.3%	1	0.9%	51.3%	95.7%
Glan Clwyd	0	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0.0%	0.0%
Prestatyn	68	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	10	14.7%	1	1.5%	1	1.5%	24	35.3%	22	32.4%	6	8.8%	14.7%	85.3%
Dinas Bran	13	0	0.0%	2	15.4%	1	7.7%	1	7.7%	4	30.8%	1	7.7%	2	15.4%	0	0.0%	1	7.7%	30.8%	84.6%
Brynhyfryd	0	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0.0%	0.0%
Ynys Llan Rhyl	75	0	0.0%	3	4.0%	7	9.3%	13	17.3%	21	28.0%	17	22.7%	6	8.0%	4	5.3%	4	5.3%	30.7%	94.7%
Ynys Llan Ed Jones/Bl. Ed Jones	19	0	0.0%	0	0.0%	1	5.3%	5	26.3%	3	15.8%	5	26.3%	2	10.5%	2	10.5%	1	5.3%	31.6%	94.7%
Ynys Llan Ffraid/ St Brigids	1	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	1	100.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0.0%	100.0%
Cyfanswm AALI/ LA Totals	293	3	1.0%	14	4.8%	24	8.2%	62	21.2%	48	16.4%	42	14.3%	45	15.4%	33	11.3%	13	4.4%	35.2%	92.5%
Holl Cymru All Wales																					

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 4
Denbighshire Schools – Table 4

CANLYDIADAU TGAU 2012 PAWB – ASTUDIAETHAU GREFYDDOL: CWRS BYR
GCSE RESULTS 2012: ALL – RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE

Tudalen 22

<i>Ysgolion/ Schools</i>	<i>Cyfanswm/ Totals</i>	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	G	%	U	%	% A* - C	% A* - G
<i>Dinbych Denbigh</i>	99	0	0.0	3	3.0	13	13.0	16	16.0	20	20.0	18	18.0	10	10.0	13	13.0	6	0.0	32.3	100
<i>Glan Clwyd</i>	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
<i>Prestatyn</i>	27	0	0.0	0	0.0	0	0.0	2	7.0	0	0.0	3	7.0	8	30.0	14	52.0	0	0.0	7.0	100
<i>Dinas Bran</i>	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
<i>Brynhyfryd</i>	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	84	0	0.0	0	0.0	2	2.0	15	18.0	19	23.0	17	20.0	19	23.0	3	4.0	9	7.0	20.2	89.3
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	10	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	2	20.0	6	60.0	1	10.0	1	10.0	0	0.0	0.0	100
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	220	0	0.0	3	1.4	15	6.8	33	15.0	41	18.6	44	20.0	38	17.3	31	14.1	15	6.8	23.6	93.2
<i>Holl Cymru All Wales</i>	19182	1650	8.6	2570	13.4	3606	18.8	3549	18.5	2705	14.1	2129	11.1	1458	7.6	978	5.1	537	2.8	59.3	97.2

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 5
Denbighshire Schools – Table 5

CANLYNIADAU SAFON UWCH 2013 – PAWB ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2013: ALL – RELIGIOUS STUDIES

Ysgolion Schools	Cyfanswm /Totals	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	% A* - C	% A* - G
<i>Dinbych Denbigh</i>	2	0	0.0%	0	0.0%	1	50.0%	0	0.0%	0	0.0%	1	50.0%	0	0.0%	50.0%	100.0%
Glan Clwyd	3	1	33.3%	0	0.0%	2	66.7%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	100.0%	100.0%
Prestatyn	37	3	8.1%	5	13.5%	15	40.5%	12	32.4%	2	5.4%		0.0%		0.0%	94.6%	100.0%
Dinas Bran	0	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0.0%	0.0%
Brynhyfryd	16		0.0%	2	12.5%	9	56.3%	3	18.8%	2	12.5%		0.0%		0.0%	87.5%	100.0%
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	0	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0.0%	0.0%
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	0	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0.0%	0.0%
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	10	0	0.0%	6	60.0%		0.0%	3	30.0%	1	10.0%		0.0%		0.0%	90.0%	100.0%
<i>Cyfanswm AALI/ LA Totals</i>	68	4	5.9%	13	19.1%	27	39.7%	18	26.5%	5	7.4%	1	1.5%	0	0.0%	91.2%	100.0%
<i>Holl Cymru All Wales</i>	1422		2%		18%		32%		28%		15%		3%			81%	99%

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 7 – CANLYNIADAU SAFON UWCH 2012 – PAWB ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
Denbighshire Schools – Table 7 GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2012: ALL – RELIGIOUS STUDIES

Ysgolion Schools	Cyfanswm Totals	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	U	%	% A* - C	% A* - E
<i>Dinbych Denbigh</i>	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
Glan Clwyd	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
Prestatyn	33	0	0.0	3	9.0	10	30.0	10	30.0	9	27.0	1	3.0	0	0.0	69.0	100
Dinas Bran	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
Brynhyfryd	7	1	14.0	1	14.0	3	43.0	2	29.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0
<i>Santes Ffraid St Brigids</i>	15	1	7.0	3	20.0	7	47.0	4	27.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	55	2	3.6	7	12.7	20	36.3	16	29.1	9	16.3	1	1.8	0	0.0	81.7	100
<i>Holl Cymru All Wales</i>	1690	50	3.0	299	17.7	568	33.6	443	26.2	223	13.2	78	4.6	29	1.7	80.4	98.3

Crynodeb o ganlyniadau arholiadau 2012-13

Summary of Examination Results 2012-13

I CYSAG Sir Ddinbych Chewfwr 2013 / For Denbighshire SACRE February 2013

Astudiaethau Crefyddol TGAU – Cwrs Llawn / GCSE Religious Studies - Full Course

Yr Holl ymgeiswyr / All candidates:

Ysgol /School	2013 <i>Nifer a safodd yr arholiad/entry</i>	2012 <i>Nifer a safodd yr arholiad/entry</i>	2013 A*-C %	2012 A*-C %	<i>Gwahaniaeth/ Difference</i> %	+/- <i>Cenedlaethol / National 2012</i>
Dinbych/ Denbigh	15	21	66.7	71	-4.3	-6.3
Glan Clwyd	9	5	88.9%	100	-11.1	15.9
Prestatyn	214	240	70.1	84	-13.9	-2.9
Dinas Bran	30	48	70.0	71	+1	-3
Brynhyfryd	42	34	95.2	94	+1.2	22.2
Y Rhyl / Rhyl	28	59	100.0	85	+15	27
Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones	-	54	-	72	-	-
Santes Ffraid / St Brigids	53	54	96.2	98	-1.8	23.2
ALI /LA	391	456	78.8	84.4	-5.6	5.8
<i>Holl Cymru / All Wales</i>	11,414	10409	73	73.6		

Astudiaethau Crefyddol TGAU – Cwrs Byr / GCSE Religious Studies – Short Course

Yr Holl ymgeiswyr / All candidates:

<i>Ysgol /School</i>	<i>2012</i> <i>Nifer a safodd yr arholiad/entry</i>	<i>2011</i> <i>Nifer a safodd yr arholiad/entry</i>	<i>2012</i> A*-C %	<i>2011</i> A*-C %	<i>Gwahaniaeth/ Difference</i> %	+/- <i>Cenedlaethol / National 2012</i>
Dinbych/ Denbigh	117	99	51.3	32	19.3	
Glan Clwyd	-	-	0.0	--		
Prestatyn	68	27	14.7	7	12.3	
Dinas Bran	13	0	30.8	--	30.8	
Brynhyfryd	-	-	-	--	-	
Y Rhyl / Rhyl	75	84	30.7	20	10.7	
Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones	19	10	31.6	0	31.6	
Santes Ffraid / St Brigids	1	0	0.0	--	0	
ALI /LA	293	220	35.2	14.8	20.4	
<i>Holl Cymru / All Wales</i>		19182		59.3		

Astudiaethau Crefyddol TGAU Safon Uwch/ GCE Religious Studies – A - Level

Yr Holl ymgeiswyr / All candidates:

<i>Ysgol /School</i>	<i>2013 Nifer a safodd yr arholiad/ entry</i>	<i>2012 Nifer a safodd yr arholiad/ entry</i>	<i>2013 A*-C %</i>	<i>2012 A*-C %</i>	<i>Gwahaniaeth/ Difference %</i>	<i>+/- Cenedlaethol / National 2012</i>
<i>Dinbych/ Denbigh</i>	2	0	50	-	50	-31
<i>Glan Clwyd</i>	3	0	100	-	100	19
<i>Prestatyn</i>	37	33	94.6	69	25.6	13.6
<i>Dinas Bran</i>	-	-	-	-	-	-
<i>Brynhyfryd</i>	16	7	87.5	100	-12.5	6.5
<i>Y Rhyl / Rhyl</i>	-	-	-	-	-	-
<i>Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones</i>	-	-	-	-	-	-
<i>Santes Ffraid / St Brigids</i>	10	15	90	100	-10	9
<i>ALI /LA</i>	68	55	91.2	81.7	9.5	10.2
<i>Holl Cymru / All Wales</i>	1422	1690	81	80.4		

Cymharu canlyniadau â'r cyfartaledd cenedlaethol / Results Comparison to National Average


<i>Cwrs Llawn / Full Course A* - C</i>									
	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013
Dinbych/ Denbigh	61.2%	67.9%	42.9%	70.6%	72.7%	67.4	77.8	72.0	66.7
Glan Clwyd	54.6%	63.6%	100%	68.8%	91.7%	50.0	81.8	100	88.9.
Prestatyn	65.4%	81.9%	75.5%	77.3%	89.5%	78.7	89.7	84.2	70.1
Dinas Bran	44.4%	72.7%	0.0%	100%	100%	50.0	87.2	70.8	70.0
Brynhyfryd	40.0%	66.7%	100%	100%	100%	81.0	86.9	94.0	95.2
Y Rhyl / Rhyl	60.0%	0.0%	100%	100%	100%	--	88.9	84.7	100.0
Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones	41.9%	22.4%	39.1%	55.8%	40.7%	52.3	53.2	72.2	-
Santes Ffraid / St Brigids	95.7%	98.0%	----	97.9%	95.5%	94.5	100	98.1	96.2%
Nat. Average	70.2%	73.7%	71.1%	72.0%	71.9%	74.3	72.9	73.6	73%
<i>Cwrs Byr / Short Course A* - C</i>									
	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013
Dinbych/ Denbigh	70.6%	65.9%	51.8%	58.6%	40.8%	26.0	29.1	32.3	51.3
Glan Clwyd	N/A	N/A	53.3%	64.7%	84.0%	--	--	--	-
Prestatyn	20.0%	42.9%	28.6%	14.3%	9.5%	--	2.2	7.0	14.7
Dinas Bran	32.9%	28.3%	60.6%	28.3%	80.0%	77.6	29.1	0.0	30.8
Brynhyfryd	N/A	N/A	N/A	100%	100%	--	0.0	0.0	-
Y Rhyl / Rhyl	60.6%	46.8%	23.8%	33.0%	46.6%	19.0	21.5	20.2	30.7
Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones	6.7%	17.4%	6.1%	18.8%	16.7%	--	0.0	0.0	31.6
Santes Ffraid / St Brigids	93.6%	98.0%	88.7%	96.2%	96.1%	--	100	--	0.0
Nat. Average	58.7%	59.7%	58.8%	59.7%	59.2%	59.7	58.0	59.3	

Cymharu canlyniadau â'r cyfartaledd cenedlaethol / Results Comparison to National Average

<i>Safon Uwch / A Level</i>									
	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013
<i>Dinbych/ Denbigh</i>	83.3%	66.7%	60.9%	64.3%	83.3%	41.1	45.4	--	50
<i>Glan Clwyd</i>	N/A	N/A	N/A	75.0%	N/A	--	100	--	100
<i>Prestatyn</i>	92.0%	64.7%	77.8%	34.6%	82.1%	57.1	64.8	100	94.6
<i>Dinas Bran</i>	0.0%	0.0%	100%	N/A	N/A	--	0.0	--	-
<i>Brynhyfryd</i>	30.0%	20.0%	N/A	100%	83.3%	80.0	100	100	87.5
<i>Y Rhyl / Rhyl</i>	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	--	0.0	--	-
<i>Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones</i>	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	--	0.0	--	-
<i>Santes Ffraid / St Brigids</i>	33.3%	58.3%	50.0%	100%	100%	83.2	100	100	90.0%
Nat. Average	65.4%	65.5%	75.9%	75.7%	79.7%	78.5	78.0	98.3	81

Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG)		
Dyddiad y Cyfarfod:		14 Chwefror 2014
Eitem ar y Rhaglen:	8	Manylion yr Adroddiad
<u>Cefndir yr Adroddiad:</u>		
